**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Dethol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 28ain Mehefin, 2016 at 10.00 am**

**PRESENT:** County Councillors: D. Batrouni, P. Jones, P. Farley, L. Guppy and J. Prosser

**ALSO PRESENT:**

County Councillor V. Smith

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Matthew Gatehouse | Policy and Performance Manager |
| Hazel Ilett | Scrutiny Manager |
| Sharran Lloyd | LSB Development Manager |
| Nicola Perry | Senior Democracy Officer |

**APOLOGIES:**

County Councillors S. Howarth, F. Taylor and S. Jones

1. **I ethol Cadeirydd**

Etholwyd y Cynghorydd Sir P. Farley fel Cadeirydd Pwyllgor Dethol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Nodwyd y byddai swyddogaeth Cadeirydd y cyfarfod yn cylchdroi rhwng Cadeiryddion y pedwar pwyllgor dethol. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod nesaf yn cael ei nodi ar ddiwedd y cyfarfod.

2. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni wnaed unrhyw ddatganiad o fuddiant gan yr Aelodau.

3. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar gyfer y Fforwm Agored Cyhoeddus.

4. **Adroddiad llywodraethu ar gyfer y Pwyllgor Dethol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB )**

**Cyd-destun:**

Derbyniasom adroddiad yn manylu ar drefniadau llywodraethu Pwyllgor Dethol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i ddarparu aelodau â'r cyfle i drafod a chytuno'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Pwyllgor Dethol BGC Sir Fynwy, gan gynnwys drafftio'r cylch gorchwyl priodol.

**Materion Allweddol:**

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

## Minutes of the meeting of Pwyllgor Dethol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 28ain Mehefin, 2016 at 10.00 am

Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ei gwneud yn ofynnol bod cyrff cyhoeddus yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardal drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) statudol. Rhoddwyd i lywodraeth leol y cyfle i graffu'r BGC a sicrhau bod egwyddorion y ddeddf yn cael eu cymhwyso i bolisi a gwneud-penderfyniadau yn Sir Fynwy.

Darparodd y papur cefndir ynghlwm wrth yr adroddiad eglurhad manwl o ofynion y ddeddf mewn perthynas â chraffu'r BGC a'r cyfrifoldebau craffu ehangach. Ceisiodd yr adroddiad gytundeb y Cyngor ar 21ain
Ionawr 2016 i sefydlu trefniant craffu i sgrwtineiddio gweithgareddau'r BGC. Cynigiodd fod y pedwar pwyllgor dethol presennol yn chwarae rhan allweddol mewn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i genedlaethau'r dyfodol drwy'u craffu ar bolisi a gwneud-penderfyniadau. Derbyniwyd argymhellion yr adroddiad ac mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Dethol BGC i graffu gweithgareddau'r BGC.

Darparodd yr adroddiad fframwaith ar gyfer trefniadau gweithio yn y dyfodol ac ymddygiad cyffredinol Pwyllgor Dethol y BGC yn unol â'r cynigion a gytunwyd gan y cyngor llawn.

Bydd Pwyllgor Dethol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys 9 Aelod anweithredol. Pedwar Cadeirydd y Pwyllgor Dethol fydd Aelodau sefydlog y pwyllgor newydd gyda gweddill yr aelodaeth etholedig yn cael eu dewis i sicrhau cydbwysedd gwleidyddol.

Adroddir rhaglen waith Pwyllgor Dethol y BGC i bob cyfarfod Pwyllgor Dethol i alluogi'r Pwyllgor i adolygu'i chynnwys a chynnwys eitemau newydd a diffinio'r trefniadau sy'n ofynnol ar gyfer y cyfarfod nesaf. Cyflwynir y rhaglen waith wedi'i diweddaru gan Gadeiryddion y Pwyllgor Dethol i'r Bwrdd Cydgysylltu.

**Craffu Aelodau:**
Yn ystod trafodaeth, yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Swyddogaeth Pwyllgor Dethol y BGC yn y lle cyntaf fyddai craffu'r newid strategol fel mae'r BGC yn esblygu a ffurfio barn parthed a yw'r hyn a gyflwynir yn gwirioneddol gofleidio Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, yn hytrach nag amrywiad ar drefniadau sydd eisoes yn bodoli er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth.

- Gallai rhai meysydd allweddol i'w hymchwilio'n gynnar gyda'r BGC gynnwys:

    - Yr hyn y mae pob partner yn ei gynnig i'r BGC yn nhermau capasiti ac arbenigedd.
    - Sut mae gweithredoedd partneriaid unigol yn cwrdd ag egwyddor datblygu cynaliadwy.
    - Sut mae'r BGC yn bwriadu gwneud y gorau o effeithlonrwydd yn nhermau cofnodi.

- Bydd Pwyllgor Dethol y BGC yn cynllunio'i flaenraglen waith ar y cyd â phenderfyniadau allweddol y bydd y BGC yn eu cymryd, fodd bynnag, mae gan y Pwyllgor Dethol y grym i alw penderfyniadau i mewn petai achos iddo ddefnyddio'r grym hwnnw. Cynghorodd y Rheolwr Craffu y gobeithid y byddai perthynas waith effeithiol gyda'r BGC a chraffu cyn-gwneud -penderfyniadau allweddol yn lleihau'r angen i ddefnyddio'r grym galw-i-mewn.

- Byddai'r Pwyllgor Dethol yn craffu gweithgareddau'r BGC fel corff cyflawn, fodd bynnag, petai'n ymddangos bod partner i'r BGC yn methu â chyflenwi blaenoriaethau'r bwrdd gellid eu gwahodd i gyfarfod Pwyllgor Dethol.

**<u>Cytunwyd:</u>**

- Derbyn yr adroddiad ar drefniadau llywodraethu ar gyfer y Pwyllgor Dethol, yn amodol ar y diwygiadau canlynol:

  (i) Byddai'r Cadeirydd yn aros yn ei le tan y cyfarfod Pwyllgor Dethol dilynol.
  (ii) Fe roddid ystyriaeth i aelodau cyfetholedig ar sail 'fel a phan fydd yn angenrheidiol'.

- Byddai agendâu Pwyllgor Dethol y BGC yn y dyfodol yn darparu cyswllt i gofnodion ac agendâu'r BGC yn ystod cyfnod cyfarfod pob Pwyllgor Dethol.

- Cytuno amodau cylch gorchwyl drafft ar gyfer y Pwyllgor Dethol yn y cyfarfod nesaf (i'w osod ar agenda pob cyfarfod Pwyllgor Dethol y BGC).

**5. <u>Cyflwyniad ar Drefniadau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gweithio</u>**

Derbyniasom adroddiad gan Reolwr Datblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a'r Rheolwr Polisi a Pherfformiad er mwyn hysbysu'r Aelodau o drefniadau gweithio'r BGC.

Yn dilyn y cyflwyniad, gwahoddwyd Aelodau i wneud sylwadau, ac yn ystod y cyfnod hwnnw nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r Heddlu'n frwd dros fod yn rhan o'r broses, fedd bynnag, o ganlyniad i fod yn wasanaeth yn cael ei arwain drwy gyfrwng y Swyddfa Gartref yn San Steffan, nid ydynt yn rhwym wrth ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru, ac felly nid ydynt yn bartner statudol ar y BGC.

- Mae Cymdeithas Gwent o Fudiadau Gwirfoddol (GAVO ) yn gynrychiolydd allweddol yn y bartneriaeth, yn cynrychioli mudiadau'r trydydd sector. Byddai cynrychiolaeth o'r Lluoedd Arfog yn cael ei wneud gan Fforwm Lluoedd Arfog ABUHB.

- Mae cynrychiolaeth benodol plant yn ddiffygiol ar y BGC. Cynghorwyd Aelodau y bu cysylltu â phobl ifanc ac nad oeddent wedi dymuno eistedd ar y BGC. Awgrymodd y Pwyllgor Dethol y gallai mudiadau megis Plant yng Nghymru gymryd rhan a phan fydd angen sicrhau y darperir persbectif pobl ifanc.

- Gofynnwyd am eglurder ar y gyllideb ar y cyd ar gyfer y BGC. Eglurodd y Rheolwr Polisi a Pherfformiad fod cyllid ychwanegol ar hyn o bryd a bod y Cyngor yn cefnogi'r BGC drwy gyllid a fodolai eisoes. Cytunwyd bod hon yn her yn nhermau adnoddau ond y byddai'r tîm yn sicrhau bod yr amcanion llesiant yn cael eu cyflawni. Disgwylid i'r BGC fod yn ddull o weithredu cydweithredol gyda'r holl bartneriaid yn cymryd rhan ar y cyd i osod yr amcanion llesiant a chytuno'r cynllun llesiant. Roedd sesiwn briffio staff wedi nodi'r unigolion allweddol ar draws y Cyngor a allai gynorthwyo i gasglu'r gymuned ynghyd i gefnogi'r asesiad llesiant. Cynghorwyd Aelodau fod y tîm Lle Cyfan ynghlwm wrth y gwaith hwn ynghyd â'r Tîm Cyfathrebu.

- Tynnodd Aelodau sylw at yr angen am gyfrifoldeb ar y cyd dros amcanion a rennir, yr angen i'r BGC gael ei gymryd o ddifrif fel bwrdd o bartneriaid yn cyflawni ar gyfer pobl Sir Fynwy. Mynegodd y Pwyllgor Dethol bryder gwirioneddol y byddai'r adnoddau i weinyddu'r BGC ac amlygu'r Asesiad Llesiant yn cael ei ddarparu'n bennaf gan staff Cyngor Sir Fynwy.

## 6. <u>Adroddiad Rheolaeth ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</u>

Cyflwynodd Rheolwr y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus adroddiad yn amlinellu'r Adroddiad Llywodraethu ar gyfer y BGC. Clywodd Aelodau, dan y strwythur sy'n bodoli, mae bwrdd y rhaglen yn cynnwys swyddogion dirprwy prif weithredol holl sefydliadau partner y BGC, sydd â'r cyfrifoldeb i gyflawni amcanion y BGC.

Gwnaeth Aelodau sylwadau y byddai achosion lle byddai'r Bwrdd Rhaglenni mewn sefyllfa well i ateb cwestiynau a ofynnwyd gan y Pwyllgor Dethol neu i ddarparu cipolwg dyfnach i mewn i gynnydd mewn gweithgareddau penodol er mwyn cyflawni'r amcanion. Eglurodd y Rheolwr Craffu, tra gellid gwahodd y Bwrdd Rhaglenni i gefnogi trafodaethau, y prif ffocws i'r Pwyllgor Dethol fyddai craffu'r BGC fel partneriaeth strategol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu presenoldeb ac edrychodd ymlaen at eu croesawu nôl i gyfarfodydd yn y dyfodol.

**<u>Cytunwyd:</u>**

- Byddai Cadeirydd y Pwyllgor Dethol yn ysgrifennu at Gadeirydd y BGC i:
    - ystyried pryderon y Pwyllgor Dethol ynghylch capasiti'r tîm i gyflenwi'r gwaith ar ran y BGC;
    - gynghori na fydd yn ofynnol i'r BGC fynychu holl gyfarfodydd Pwyllgor Dethol y BGC (gwahoddiadau i'w cynnig fel a phryd bydd yn ofynnol);
    - wneud cais bod y BGC yn cytuno rhestr weithredu fer ar ddiwedd pob un o'i gyfarfodydd i gynorthwyo'r Pwyllgor Dethol i fonitro cynnydd y BGC;
    - wneud cais bod cylch gorchwyl y BGC yn cael eu diwygio i gynnwys disgwyliad, mewn achosion lle na all partner yn y BGC fynychu cyfarfod y BGC, bod dirprwy yn mynychu ar ran y partner i sicrhau nad yw absenoldeb yn andwyol i gynnydd cyffredinol y bwrdd;
    - wahodd Cadeirydd y BGC i fynychu cyfarfod Pwyllgor Dethol y BGC ar 11eg Hydref (10am) lle cyflwynir adborth yr ymgysylltu cymunedol fel paratoad at yr asesiad llesiant.
- Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Comisiynydd i drosglwyddo deilliannau'r Pwyllgor Dethol a'i gwahodd i fynychu'r cyfarfod ar 11eg Hydref (10am) i gynnig ei phersbectif ar y grymoedd a gynigiwyd i'r Comisiynydd ynghyd â'r Pwyllgor Dethol i sicrhau bod y BGC yn perfformio'n effeithiol.

## 7. <u>Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus cyntaf</u>

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Dethol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 28ain Mehefin, 2016 at 10.00 am**

Derbyniodd yr Aelodau gofnodion pwyllgor cyntaf y BGC a gynhaliwyd ar $7^{fed}$ Ebrill 2016 er gwybodaeth. Nododd y Cadeirydd fod pedwar partner wedi bod yn absennol yn y cyfarfod cyntaf ac ymddangosai fod rhai partneriaid yn cael eu gorgynrychioli. Gofynnodd yr Aelodau am hysbysiad rhag blaen o ddyddiadau cyfarfodydd y BGC.

8. **I ystyried blaenraglen waith y Pwyllgor Dethol**

Cytunwyd mai'r Cynghorydd Sir P. Jones fyddai'n Cadeirio'r cyfarfod nesaf Byddai'r Rheolwr Craffu'n drafftio'r flaenraglen waith i'w chytuno yn y cyfarfod ar $11^{eg}$ Hydref 2016.

9. **Nodi dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf :**

Nodwyd dydd Mawrth, $11^{eg}$ Hydref 2016 am 10.00am fel dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.

**The meeting ended at 12.05 pm**